Mae Cadair (neu Cader) Idris yn un o fynyddoedd mwyaf eiconig Cymru. Mae tuag 893m o uchder ac yn rhyw fath o borth deheuol i Eryri, yn edrych dros Ddolgellau. Y tri chopa yw Pen y Gadair, y Cyfrwy a Mynydd Moel.

Mae lluo o straeon a chwedlau'n gysylltiedig â'r mynydd ac ag Idris, y cawr y dywedir ei fod yn arfer eistedd yno. Yn ôl y sôn, mae nifer o lynnoedd yr ardal, fel Llyn Cau sydd mewn cwm hanner ffordd i lawr y mynydd a Llyn Mwyngil (neu Lyn Tal-y-llyn) yn byllau diwaelod. Mae'n debyg y dylech feddwl ddwywaith cyn mynd i wersylla ar Gadair Idris oherwydd dywedir bod y sawl sy'n cysgu ar y mynydd yn deffro'n wallgof neu'n fardd neu, wir, yn peidio â deffro o gwbl.

Mae Idris yn ymddangos ar sawl ffurf mewn chwedlau Cymreig – yn gawr, yn dywysog ac yn seryddwr. Yn ôl un chwedl, tra oedd Idris yn eistedd ar ei gadair un diwrnod, teimlodd gerrig mân yn ei esgidiau. Tynnodd ei esgidiau a lluchio'r cerrig mân i lawr ochr y mynydd. Dywedir mai'r cerrig mân hynny yw'r tair carreg enfawr sydd i'w gweld wrth droed y mynydd. Mae chwedl arall yn sôn am Idris yn taflu tameidiau o raean hefyd. Glaniodd un darn – cloben o graig – yn Aberllefenni, un arall yn Rhydymain a'r trydydd yn Abergeirw. Mae dwy garreg arall ar y chwith yn y bwlch wrth i chi fynd am Ddolgellau sydd hefyd yn gysylltiedig â'r stori. Idris daflodd y gyntaf, yr un fwyaf sydd dros y ffordd i'r gilfan ac, yn ôl y sôn, ei wraig a luchiodd y llall!

Ond pwy oedd Idris? Sut y daeth yn enwog? Mae'n debyg bod y trywydd i ddod o hyd i'r Idris hanesyddol yn cychwyn gyda Sualda ab Idris, tywysog Meirionnydd yn y seithfed ganrif (tua 630OC). Idris ap Gwyddno o Feirionnydd, a fu farw yn 632OC ac y ceir cyfeiriad ato yn Achrestrau Harley, oedd tad Sualda. Mae rhai pobl yn credu mai Gwyddno, tad Idris, oedd Gwyddno Garanhir, perchennog Cantre'r Gwaelod. Dywedir mai mewn basged ar nant ar dir Gwyddno y cafwyd hyd i Taliesin, y bardd a'r gweledydd lled hanesyddol, ar Galan Mai.

Mae'n braf gweld cysylltiad rhwng y gwahanol chwedlau ond, mewn gwirionedd, mae'n annhebygol y cawn wybod fyth a fu Idris yn dywysog Meirionnydd a bod ei allu milwrol a'i enwogrwydd wedi ei wneud yn 'gawr' ymhlith dynion ynteu ai cynnyrch chwedlau gwerin a dychymyg pobl a ysbrydolwyd gan dirwedd mawreddog a thywydd cyfnewidiol mynyddoedd Eryri ydoedd.

Er mai ag Idris y cysylltir y mynydd gan amlaf, cyfeirir ato weithiau fel Cadair Arthur – sef y Brenin Arthur, mae'n fwy na thebyg. Mae Susan Cooper yn gwneud y cysylltiad hwn yn ei llyfr The Grey King sy'n rhan o'i chyfres adnabyddus The Dark is Rising.

Yn ôl chwedloniaeth Cymru, roedd Cadair Idris hefyd yn rhan o diroedd hela Gwyn ap Nudd, brenin Annwn, a'i gŵn arallfydol â'u clustiau cochion. Y gred

oedd y byddai'r sawl a glywai'r cŵn hyn yn udo yn siwr o farw ac y byddai'r cŵn yn hebrwng ei enaid i Annwn.

Mae nifer o lwybrau troed penodol yn arwain i gopa Cadair Idris, yn cynnwys Llwybr Pilin Pwn (Pony Path) a Llwybr Madyn (Fox's Path). Mae Llwybr Madyn, rhwng Llyn y Gader a'r copa ar lethr serth o sgri rhydd ac mae'n rhaid bod yn eithriadol o ofalus wrth ddod i lawr. Dynodwyd llawer o dir o gwmpas y mynydd yn Warchodfa Natur Genedlaethol ym 1957, a cheir yma blanhigion arctig-alpaidd yn cynnwys y tormaen porffor a'r gorhelygen. Mae rhagor o wybodaeth ar gyfer cerddwyr sy'n dymuno ymweld â Chadair Idris, yn [www.wales-walking.co.uk](http://www.wales-walking.co.uk).

## LLEUCU LLWYD

Mae Lleucu Llwyd yn rhan o un o storïau caru tristaf Cymru. Roedd hi'n byw ar fferm Dolgelynen ger afon Dyfi tua chanol y bedwaredd ganrif ar ddeg, ac yn ôl y sôn roedd hi'n ferch ifanc hardd iawn.

Syrthiodd Lleucu mewn cariad â bardd ifanc, Llywelyn Goch ap Meurig Hen, ond roedd ei thad yn anfodlon i'r berthynas barhau a gwnaeth bopeth o fewn ei allu i wahanu'r cariadon ifanc.

Yn ystod eu carwriaeth, bu rhaid i Lywelyn Goch deithio i dde Cymru, ond addawodd ddychwelyd i briodi Lleucu. Pan oedd o i ffwrdd, gwelodd tad Lleucu ei gyfle, a dywedodd wrth ei ferch fod Llywelyn wedi'i bradychu ac wedi priodi merch arall. Torrodd Lleucu ei chalon a bu farw.

Dychwelodd Llywelyn i Ddolgelynen i gadw'i addewid a phriodi Lleucu, ond pan gyrhaeddodd yn ôl, roedd ei hangladd yn cael ei gynnal a helpodd Llywelyn i'w chladdu. Yn ôl cofnodion Eglwys Sant Pedr mewn Cadwyni, Pennal, claddwyd Lleucu o dan allor yr eglwys yn 1390.

Mae stori drist Lleucu Llwyd wedi parhau'n rhan o draddodiad gwerin Cymru diolch i farddoniaeth Llywelyn Goch (1350 – 1380). Mae ei farwnad i Lleucu'n cael ei hystyried yn un o gerddi gorau'r cyfnod.

MARI JONES (RHAGFYR 16 1784 - RHAGFYR 29, 1864)

Ym 1800 cerddodd merch ifanc o'r enw Mari Jacob Jones, a oedd yn ddim ond 16 oed ar y pryd, yn droednoeth o'i chartref yn Llanfihangel-y-Pennant i'r Bala – taith o dros 50 milltir yno ac yn ôl – er mwyn prynu Beibl Cymraeg. Bu'n cynilo am dros chwe blynedd er mwyn cael digon o arian i brynu Beibl, a'r Bala oedd y lle agosaf i'w chartref lle gallai brynu un. Cychwynnodd ar ei thaith un bore yn 1800, ond erbyn iddi gyrraedd y dref, nid oedd yr un Beibl Cymraeg ar ôl. Roedd Thomas Charles yn ddyn uchel ei barch a oedd yn trefnu ysgolion cylchynnol yn yr ardal (yn cynnwys yr ysgol lle dysgodd Mari ddarllen). Pan welodd pa mor siomedig oedd Mari, cymerodd drueni drosti a rhoi ei gopi personol ef o'r Beibl iddi. Dyma fu'r ysgogiad i sefydlu y Feibl Gymdeithas Frytanidd a Thramor (sef Cymdeithas y Beibl erbyn hyn).

Ymhen amser, priododd Mari wehydd o Fryn-crug o'r enw Thomas Lewis. Bu farw yn 1864 ac fe'i claddwyd ym mynwent Capel Methodistiaid Calфинаidd Bryn-crug. Mae ei Beibl yn cael ei gadw yn archifau Cymdeithas y Beibl yn Llyfrgell Prifysgol Caergrawnt. Mae'n un o ddim ond deng mil o gopiâu o argraffiad 1799 o'r Beibl Cymraeg a argraffwyd yn Rhydychen ar ran y Gymdeithas er Taenu Gwybodaeth Gristionogol.

Ar dudalen olaf yr Apocryffa, ysgrifennodd Mari Jones, yn Saesneg: Mary Jones was born 16th of December 1784. I Bought this in the 16th year of my age. I am Daughter of Jacob Jones and Mary Jones His wife. the Lord may give me grace. Amen. Mary Jones His [is] The True Honour [owner] of this Bible. Bought In the Year 1800 Aged 16.

Mae un arall o'r copiâu a brynwyd ganddi yn y Bala yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn Aberystwyth; gweler [www.llgc.org.uk](http://www.llgc.org.uk) am fwy o fanylion.

Mae yna lwybr cerdded yn mynd o gartref Mari yn Llanfihangel-y-Pennant i'r Bala. Ewch i wefan Cymdeithas y Beibl am fwy o fanylion:  
<http://www.biblesociety.org.uk/about-bible-society/what-we-do/our-work/mary-jones/>

## HEDD WYN (1887 – 1917)

Ganwyd Ellis Humphrey Evans ar 13 Ionawr 1887 yn Nhrawsfynydd. Yn dilyn addysg sylfaenol gadawodd ysgol yn bedair ar ddeg i ddechrau bugeilio ar fferm ei dad, Yr Ysgwrn.

Dechreuodd ysgrifennu cerddi ban yn rhyw un ar ddeg oed, ac o fewn wyth mlynedd roedd yn cystadlu'n rheolaidd mewn Eisteddfodau lleol. Ysbrydolwyd llawer o'i waith gan y beirdd Rhamantaidd megis Shelly; nid yw'n syndod efallai i fugail ifanc fyfyrion dros natur a chrefydd. Enillodd y gyntaf o chwe chadair yn Eisteddfod y Bala yn 1907, ac erbyn 1910 roedd wedi cymryd yr enw barddol Hedd Wyn.

Cyn pen dim roedd y Rhyfel Byd Cyntaf yn taflu cysgodion tywyll ar draws pob cymuned ym Mhrydain. Dechreuodd consgripsiwn yn 1916, ac roedd yn ofynnol i fab o deulu Ysgwrn i ymuno â'r Fyddin Brydeinig. Er mwyn sicrhau na fyddai'n rhaid i'w frawd iau gael ei ddanfôn, ymrestrodd Ellis. Derbyniodd hyfforddiant yng Ngwersyll Litherland, Lerpwl, ond ym mis Mawrth 1917, ynghyd â milwyr eraill, cafodd ei ryddhau o'i ddyletswydd am saith wythnos i helpu gydag aredig a phlannu tir. Aeth adref i Drawsfynydd. Yn ystod y cyfnod hwn dechreuodd weithio ar yr awdl' Yr Arwr' ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol. Roedd hi'n flwyddyn wlyb, ac arhosodd yn hwy adref ar y fferm i orffen plannu nag a ganiateir. Dyma'r heddlu milwrol yn ei gasglu'n ddisymwth a chafodd ei ddal mewn cell ym Mlaenau Ffestiniog dros nos, cyn cael eu cludo i Wlad Belg ac yna ymlaen i ymuno â Bataliwn 15fed Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig yn Fléchin, Ffrainc.

Roedd ei ymadawiad wedi bod mor sydyn, nes peri iddo anghofio'r gerdd ar gyfer yr Eisteddfod ar fwrdd adre ar y fferm, felly ysgrifennodd hi eto ar ei daith. Yn Fléchine, tra'n aros am yr orchymyn i fynd i ymladd y gorffennodd 'Yr Arwr' a'i llofnodi a'r ffug-enw 'Fleur de Lis'. Postiodd hi o'r dref ar 15 Gorffennaf 1917, un diwrnod cyn i'w Fataliwn orymdeithio tuag at yr hyn a adnabyddur heddiw fel Brwydr Passchendaele.

Yn ôl yng Nghymru, aeddfedodd y cnydau a dechreuodd y cynaeafu. Ym mis Medi'r flwyddyn honno, cynhaliwyd yr Eisteddfod Genedlaethol yn Birkenhead. Cynhaliwyd seremoni'r Cadeirio'r ar y 6ed o Fedi ym mhresenoldeb y Prif Weinidog, David Lloyd George.

Ar yr amser penodedig, dyma enw ffug y bardd buddugol yn cael ei gyhoeddi: "Fleur de Lys", a'r corn gwlad yn gwahodd y bardd i sefyll a gwneud ei hun yn hysbys, ond safodd neb. Yn lle hynny, yn ddifrifol, cyhoeddodd yr Archdderwydd bod bardd y gadair, Ellis Evans wedi cael ei ladd wrth ymladd chwe wythnos ynghynt. Cafodd ei glwyfo yn ystod Brwydr Passchendaele, a bu farw o'i anafiadau ar 31 Gorffennaf 1917.

Gorchuddiwyd y gadair mewn blanced du ac mae wedi ei hadnabod ers hynny fel 'Cadair Ddu Birkinhead'.

Claddwyd Ellis H Evans ym Mynwent Artillery Wood ger Boezinge. Wedi diwedd y Rhyfel, cyflwynwyd deiseb i'r comisiwn Beddau Rhyfel y Gymanwlad yn gofyn am ychwanegu rhai geiriau at yr enw syml 'E H Evans' ar ei garreg fedd. Felly, heddiw mae'n darllen: 'E H Evans, Y Prifardd Hedd Wyn'.

## Y TYWYSOG MADOG AB OWAIN

'In fourteen hundred and ninety-two Columbus sailed the ocean blue'... yn ôl y dywediad, a darganfod America. Ond, yn ôl y chwedl, roedd y Tywysog Madog ab Owain Gwynedd yno yn gyntaf - rhyw 300 mlynedd ynghynt.

Hwylodd Madog a'i frawd Rhiryd o'r Ile a wyddom heddiw fel Llandrillo-yn-rhos ym 1170, a gollwng angor o bosibl ar arfordir Alabama fel y gelwir heddiw. Dychwelodd Madog i Gymru gyda straeon o antur uchel cyn cychwyn yr eil waith, gan gymryd band o ymsefydlwyr gydag ef. Credir eu bod wedi glanio yn Mobile Bay, cyn dilyn afon Alabama i mewn i'r tir. Ond dyw'r stori ddim yn gorffen yno: dwedir bod caerau cerrig ar hyd yr afon sy'n dyddio o gwmpas yr amser cyrhaeddodd Madog ar ddyluniad tebyg i Gastell Dolwyddelan, a chredir i anturiaethwyr cynnar gael tystiolaeth o ddylanwad Cymreig ymhlith gwahanol lwythau Indiaid Gogledd America - gan gynnwys y defnydd o gwryglau - math o gwch dal mewn defnydd yng Nghymru heddiw.

Prun ai ffaith neu chwedl ydyw, mae stori Madog wedi bod yn ysbrydoliaeth ffrwythlon i genedlaethau o feirdd, nofelwyr a haneswyr diwylliannol.

Honnir mai mab anghyfreithlon i Owain Gwynedd, tywysog Gwynedd a ystyrir yn eang yn un o arweinwyr blaenllaw Cymru yn y Canol Oesoedd, oedd Madog. Yn dilyn Marwolaeth Owain Gwynedd ym 1170, dechreuodd gweryl gwaedlyd rhwng ei etifedd Hywel a Maelgwn, Rhodri a Dafydd a'i feibion iau. Roedd y rhain yn feibion i ail wraig Owain, Cristin. Yn gyfan gwbl, roedd ganddo o leiaf 13 o blant o'i ddwy wraig, a ganed nifer mwy y tu allan i briodas; ond – yn ôl y traddodiad Cymreig, roedd pob plentyn yn cael eu cydnabod yn llawn. Yn ôl y chwedl, roedd Madog a'i frawd Rhiryd ymhlith y rhain.

Mae'r chwedl yn honni bod Madog wedi digalonni gan yr ymladd rhwng ei frodyr ac felly penderfynodd ef a Rhiryd deithio'r môr gorllewinol gyda llynges fach o gygod. A dyna a wnaethant, gan hwylio o Landrillo, Llandrillo-yn-rhos.

Mae'r stori yn dweud eu bod wedi darganfod gwlad bell, ffrwythlon lle'r ymgartrefodd cant o Gymry a deithiodd gyda Madog. Awgrymir mai yng ngorllewin Florida neu Mobile Bay, Alabama yn yr Unol Daleithiau y glaniodd llong Madog. Yna bod Madog a rhai eraill, wedi dychwelyd i Gymru i recriwtio mwy o ymsefydlwyr ac yna dychwelyd ar draws yr Iwerydd yr eildro, byth i ddychwelyd eto.

Er nad oes prawf cadarn, cafwyd rhai hanesion diddorol sy'n ymddangos i gefnogi'r chwedl. Ar 26 Tachwedd, 1608, ysgrifennodd Peter Wynne, aelod o griw archwilio Capten Christopher Newport i bentrefi dwyreiniol Siouan MONACAN, uwchben y rhaeadr Afon James yn Virginia, lythyr at John Egerton. Ynddo dywedodd wrth Egerton bod rhai aelodau o griw Newport yn credu bod ynganiad iaith y Monacans yn 'debyg' i'r Gymraeg a siaradodd Wynne. Ar ben hynny, mae'r Monacans ymysg llwythau nad ydynt yn perthyn

i'r Algonquian. Cyfeirir atynt gan y Algonquians fel "Mandoag" - term pryfoclyd o agos at 'Madoc-ian'.

Ymsefydlwr cynnar arall i honni cyfarfod gydag Indiaid oedd yn siarad Cymraeg oedd y Parch Morgan Jones. Dywedodd wrth Thomas Lloyd, dirprwy William Penn, ei fod wedi ei gipio ym 1669 gan lwyth o Tuscarora a elwir y Doeg. Yn ôl Jones, arbedwyd ei fywyd pan glywodd pennaeth y llwyth yn ef yn siarad Cymraeg. Mae'n debyg bod pennaeth y llwyth yn gyfarwydd â'r iaith, ac yn deall llawer o'r hyn a ddywedodd Jones. Adroddiad Jones ei fod wedyn wedi byw gyda'r Doeg am sawl mis, gan bregethu yr Efengyl yn y Gymraeg atynt, cyn dychwelyd i'r Wladfa Brydeinig lle recordiodd yr antur ym 1686.

Mae traddodiad gwerin wedi hir ddal bod safle o'r enw 'Devil's Backbone' yn Ynys Rose, tua phedwar ar ddeg milltir i fyny'r afon o Louisville, Kentucky, unwaith yn gartref i lwyth o Indiaid oedd yn siarad Cymraeg.

Ym 1810, ysgrifennodd llywodraethwr cyntaf Tennessee, Jon Sevier at ei ffrind, Major Amos Stoddard ynghylch a sgwrs roedd wedi cael blynyddoedd ynghynt ym 1782 gyda'r hen bennaeth y Cherokee, Oconostota am amddiffynfeydd hynafol a adeiladwyd ar hyd Afon Alabama. Yn y llythyr, mae Sevier yn honni bod yr hen bennaeth wedi dweud wrtho fod y caerau wedi eu hadeiladu gan bobl gwyn o'r enw "Cymraeg", fel amddiffyniad yn erbyn y Cherokee. Ysgrifennodd Sevier hefyd ym 1700 ynglŷn â darganfyddiad honedig o chwe sgerbwdd mewn arfwisg bres ac arnynt arfbais Gymreig.

Mae'r stori yn cael ei chadarnhau mewn llythyr diweddarach, dyddiedig 1824 gan Thomas S Hind, a ysgrifennodd at olygydd y Pioneer Americanaidd ynglŷn â thraddodiad Madog. Yn y llythyr hwnnw, honnodd Hind, bod olion chwech o filwyr wedi cael eu cloddio ger Jeffersonville, Indiana ar Afon Ohio ym 1700 a rheini hefyd yn gwisgo brestbladau gydag arfbais Gymreig arnynt.

Mae'n debygol na wyddwn ni byth mo'r gwir, na ddaw unrhyw arteffact na thystiolaeth i glawr a fedr brofi y tu hwnt i amheuaeth bod uchelwr Cymreig wedi darganfod America dair canrif cyn Columbus. Serch hynny, mae'n stori ddiddorol ac yn chwedl sydd wedi gwrthsefyll prawf amser.



## MYRDDIN

Of Merlin and his skill what Region doth not heare  
The world shall still be full of Merlin everie where.  
A thousand lingering yeares his prophecies have runne,  
And scarcely shall have end till time itself be done.

Michael Drayton, Poly-olbion, Song V.

Yn 1622, fe ragfynegodd y bardd enwog o Sais, Michael Drayton, y byddai enwogrwydd Myrddin yn para hyd ddiwedd amser. Bedair canrif yn ddiweddarach, nid yw'n ymddangos bod seren Myrddin yn mynd yn llai disglair. Mae wedi bod yn destun llyfrau, nofelau, dramâu, astudiaethau academaidd, gwefannau, ffilmiau, nifer o gyfresi teledu a gwaith celf. Mae'n ymddangos fel petai pob cenhedlaeth yn ail-ddarganfod Myrddin a bod y ffigur dirgel hwn yn ein gorffennol pell yn dal i gipio'n dychymyg.

Efallai mai fel cynghorwr i'r Brenin Arthur a dewin yn y chwedlau Arthuraidd y mae Myrddin yn fwyaf enwog. Sieffre o Fynwy, yr awdur o'r ddeuddegfed ganrif, sy'n rhoi'r darlun cyntaf o Fyrddin fel y mae'n cael ei bortreadu heddiw i ni, a hynny yn Historia Regum Britanniae a ysgrifennwyd yn 1136. Fodd bynnag, roedd Sieffre yn defnyddio ffynonellau llawer hŷn. Cyfunodd storiâu am Fyrddin Wylt (Merlinus Caledonis), dyn gwyllt o'r coed heb unrhyw gysylltiad o gwbl ag Arthur gyda storiâu am yr arweinydd rhyfel Brythonig-Rufeinig hanesyddol Ambrosius Aurelianus er mwyn creu ffigur a enwodd ef yn Merlin Ambrosius.

Mae'n ymddangos bod storiâu am Myrddin yn gyffredin iawn yn y gwledydd Celtaidd ac ar y cyfandir yn ystod yr Oesoedd Tywyll ac iddynt gyrraedd anterth eu poblogrwydd yn y cyfnod Canoloesol. O ganlyniad, mae nifer o lefydd yn hawlio cysylltiad gyda'i fywyd mewn rhyw ffordd.

Mae fersiwn Cymru o'r chwedl – sydd wedi'i seilio ar gymeriad dyn gwyllt o'r coed Myrddin Wylt – yn dweud i Fyrddin, wedi iddo gael ei drechu ym Mrwydr Arfderydd ger Caerliwelydd yn 573, fynd o'i go'. Ciliodd i Goed Celyddon yn ne'r Alban lle roedd pobl yn siarad Cymraeg ar y pryd. Yno bu'n byw fel dyn gwyllt gyda dim ond anifeiliaid y goedwig a phorchell yn gwmni. O ganlyniad i'w brofiadau yn ystod ei arhosiad yn y coed, daeth Myrddin yn broffwyd. Ysgrifennwyd nifer o'r proffwydoliaethau hyn mewn ffurf farddonol yn ystod y nawfed ganrif, yn ôl y sôn gan Fyrddin ei hun, ac mae casgliad ohonynt wedi'u cofnodi yn y llawysgrif o'r drydedd ganrif ar ddeg Llyfr Du Caerfyrddin.

Nid yw'n syndod felly bod nifer o'r straeon am Fyrddin wedi eu lleoli yng Nghaerfyrddin. Hefyd, mae'n glir bod Myrddin yn adnabyddus fel bardd a phroffwyd yng Nghymru mor gynnar â'r ddegfed ganrif gan bod cyfeiriad ato i'w gael yn y gerdd broffwydol Armes Prydain sy'n ffurfio rhan o Lyfr Taliesin. Cyfansoddwyd y gerdd hon gan gefnogwr i linach Deheubarth yn ne-orllewin Cymru. Mae ysgolheigion modern yn credu bod posibilrwydd mai eglwyswr

oedd yr ysgrifennwr er ei bod yn cael ei cham-dadogi ar Taliesin. Felly, mae'n amlwg i'r cysylltiad rhwng Myrddin a thref Caerfyrddin gael ei wneud o leiaf mor fuan â phan gyfansoddiwyd Armes Prydain – o leiaf ddwy ganrif cyn Llyfr Du Caerfyrddin.

Yn olaf, mae'r nifer enfawr o safleoedd ac enwau lleoedd yn yr ardal gan gynnwys ei goeden dderw, bryn ac ogof, cerrig a siambrau claddu yn awgrymu cysylltiad pendant.

### Myrddin Yn Deffro

Gwrtheyrn oedd Brenin y Brythoniaid yn ystod y bumed ganrif. Roedd yn gyfnod o newid mawr. Nid oedd pobl Prydain wedi dioddef ymosodiad o'r tu allan ers goresgyniad y Rhufeiniaid ac roedd hynny bellach yn hen hanes. Ond nawr roedd bygythiad arall – y Sacsoniaid.

Roedd Gwrtheyrn yn anfwriadol wedi talu arglwyddi rhyfel Sacsonaidd fel milwyr tâl i ymladd yn erbyn Pictiaid afreolus y gogledd. Gwrthryfelodd y Sacsoniaid gan sefydlu eu teyrnasau eu hunain. Yn raddol, daeth lluoedd y Sacsoniaid i reoli llawer o'r lle rydym yn ei adnabod fel Lloegr heddiw gawn orfodi'r Brythoniaid brodorol i gilio i rannau gorllewinol a gogleddol yr ynys: i'r Alban, Cymru a Chernyw. Mae cerdd Gymraeg o'r chweched ganrif o'r enw Y Gododdin yn adrodd hanes y frwydr olaf am dir Brythonig Gododdin rhwng lluoedd y Brythoniaid a'r Eingl-Sacsoniaid. Ynndi, mae'r bardd Aneurin yn disgrifio ffawd y fyddin Frythonig:

O drychant rhiallu yd grysiasant Gatraeth,  
Tru, namyn un gŵr nid atgorsant.

O'r fyddin frenhinol o dri chant o ddynion a frysiodd i Gatraeth, Och! Ni ddychwelodd dim ond un.

Apeliodd Gwrtheyrn ar ei gynghorwyr derwyddol am arweiniad. Dywedwyd wrtho y dylai gilio i fynyddoedd Cymru a dod o hyd i le addas i adeiladu cadarnle lle y gallai reoli a chynllunio'i wrthymosodiadau. Wedi chwilio'n hir a chaled, daeth Gwrtheyrn at odre'r Wyddfa, y mynydd uchaf yn ei dir. Dewisodd fryn serth gyda chopa gwastad ger yr afon Glaslyn a dechreuodd ei ddynion ar eu gwaith ac adeiladu muriau mawr a fyddai'n amddiffyn Gwrtheyrn a'i lys.

Ddydd ar ôl dydd roedden nhw'n gweithio yng ngwres diwedd haf er mwyn palu'r sylfeini ac adeiladu'r muriau, ond ni wnaed unrhyw gynnydd. Bob nos bydda'r cerrig yn cael eu dymchwel a bob bore byddai'n rhaid i'r gweithwyr gychwyn o'r cychwyn. Ar ôl rhai wythnosau, galwodd Gwrtheyrn gyngor o'i dderwyddon. Gofynnodd iddynt ddarganfod pam na allent adeiladu ar y bryn a pha hud a llefrith fyddai'n gwrthsefyll pa bynnag rymoedd maleisus oedd yn dinistrio'r muriau yn ystod y nod. Cynghorwyd Gwrtheyrn i ddod o hyd i fachgen heb dad meidrol. Pe aberthwyd y bachgen hwn a thywallt ei waed ar

ben y bryn, yna byddai ysbrydion helbulus y lle'n cael eu tawelu a gallai'r gwaith fynd yn ei flaen heb anhawster.

Gyrrodd Gwrtheyrn ddynion i bob cornel o'r deyrnas i ddod o hyd i'r fath fachgen. Wedi rhai misoedd o chwilio ofer, daeth rhai o'r dynion i hen dref Rufeinig Moridunum, sef Caerfyrddin heddiw. Yno, yn agos at yr hen amffitheatr Rufeinig, o dan ganghennau coeden dderwen, daethant ar draws criw o fechgyn ifanc. Roedd un o'r bechgyn hyn yn cael ei wawdio gan ddau arall am nad oedd ganddo dad. Cododd hyn chwilfrydedd y milwyr a dyma nhw'n torri ar draws ffræ'r bechgyn. Emrys oedd enw'r bachgen ac wedi i'r milwyr holi am ei fam, aeth a nhw i'w chyfarfod. Roedd hi'n dywysoges yn y rhanbarth oedd bellach yn byw fel lleian yn y Priordy yng Nghaerfyrddin. Eglurodd iddi gael ymweliad un noson gan ysbryd euraid ac mai drwy'r ymweliad hwnnw yr oedd ei mab wedi'i genhedlu.

Aeth y milwyr ag Emrys yn ôl i'r gogledd gyda nhw ac ar doriad gwawr ar fore oer yn nyfnder gaeaf, cafodd ei arwain gan dderwyddon Gwrtheyrn i gopa'r bryn. Wrth sylweddoli beth oedd ei dynged, cyhoeddodd na fyddai ei ladd a thywallt ei waed yn gwneud unrhyw wahaniaeth o gwbl. Ond, dywedodd ei fod yn gwybod beth oedd yn achosi i'r muriau ddisgyn bob nos:

*“O dan y bryn hwn, mae yna llyn, ac o dan y llyn, mae yna garreg. O dan y garreg honno mae yna ogof ddofn gyda dwy siambr. Ym mhob siambr mae yna ddraig yn cysgu. Wrth i chi adeiladu'r muriau yn ystod y dydd, mae'r pwysau yn gwasgu i lawr ar gefnau'r dreigiau felly yn y nos, pan maen nhw'n deffro, mae'n nhw'n ysgwyd y tir ac mae'r muriau'n disgyn.”*

Pan ofynnwyd iddo beth y dylid ei wneud fel y gellid adeiladu'r gaer yn llwyddiannus, cynghorodd Emrys y dylid draenio'r llyn tanddaearol a chloddio'r capfaen o dano er mwyn datgelu'r ceudwll. Aeth dynion Gwrtheyrn at eu gwaith yn syth a dod o hyd i bopeth a ddisgrifiodd Emrys. Buont yn gweithio drwy'r dydd tan iddynt allu symud y capfaen er mwyn datgelu'r ceudwll tywyll, dwfn yng nghalon y bryn.

Y noson honno, arhosodd Gwrtheyrn a'i dderwyddon a'i ryfelwyr gyda Emrys ar wylidwraeth. Yn union fel y proffwydodd Emrys, wrth i'r pelydrau olaf o olau adael yr awyr, deffrodd y ddwy ddraig – un wen ac un goch. Am nifer o oriau y noson honno, fe ymladdodd y ddwy ddraig yn ffyrnig. Ar un pwynt roedd y ddraig goch yn ymddangos yn wan ac yn anabl i wrthsefyll ymosodiad diflino'r ddraig wen, ond yn y diwedd, fe yrrodd y ddraig goch y ddraig wen allan o'r ogof. Dihangodd drwy'r agoriad a hedfan tuag at y de.

*“Beth mae hyn yn ei feddwl?”* gofynnodd Gwrtheyrn i'w gynghorwyr. Emrys oedd yr unig un a allai roi ateb iddo.

*“Syr”, meddai, “Mae'r ddraig goch yn cynrychioli pobl Frythonig y tir hwn ac mae'r ddraig wen yn cynrychioli'r Sacsoniaid. Mae hyn yn arwydd y bydd pobl frodorol yr ynys hon yn llwyddo i wrthsefyll y Sacsoniaid yn y diwedd.”*

Hyd y dydd heddiw, Dinas Emrys yw enw'r bryn. Ond beth yw cysylltiad Myrddin â hyn? Wedi iddynt ryfeddu at broffwydoliaeth y bachgen, rhoddodd y derwyddon enw newydd i Emrys – enw a roddid i'r beirdd a'r gweledyddion doethaf a mwyaf goleuedig. Cafodd ei enwi'n Myrddin.

Parhaodd y ddraig wen ar ei thaith drwy berfeddwlad Cymru tua'r de tan iddi ddod, yn y diwedd, at y môr. Yn ôl y chwedl, fel iddi ddynesu at yr arfordir lle mae Penrhyn Gŵyr heddiw, cododd yr haul a throwyd y ddraig yn garreg. Hyd y dydd heddiw gelwir pentir Gwyr yn 'Worm's Head'. Gair Engl Sacsonaidd yw 'Worm' oedd yn golygu 'draig'. O arfordir de Sir Gâr, gellid gweld y ddraig yn ymlwybro i'r mor – pen, gwddwg a chynffon.

Cafodd y ddraig goch fwy o lwc. Cymrodd ei lle ar faner Cymru fel symbol o warcheidwad dros y wlad. Daeth proffwydoliaeth gyntaf Myrddin yn wir; ni choncrwyd y Cymry gan yr Eingl-Sacsoniaid. Tra bu i frenhinoedd Normanaidd a Seisnig hawlio rheolaeth ar y genedl, ni chafodd ei choncro erioed. Heddiw, mae'r Ddraig Goch, fel yr adnabyddir y faner, yn hedfan yn falch tu allan i'r Cynulliad yng Nghaerdydd – senedd Cymu.

## BEDD GELERT

Gelert oedd hoff gi hela'r Brenin, Llywelyn Fawr, ond yr oedd yn mynd yn hen, ac nid oedd mwyach yn medru cadw i fyny gyda'r helfa nag ysgyfarnog na hydd. Serch hynny, cadwodd Llywelyn ef yn agos, yn gydymaith cyson wrth iddo deithio o lys i lys i gwrdd â'i bobl a sicrhau bod cyfiawnder yn cael ei wneud drwy gydol ei dir. Yn ôl yn y cartref, ymhlith y teulu, roedd Gelert yn ffefryn gan bawb am ei addfwynder a'i natur dda, ac yn aml yn cael ei adael i warchod mab bychan Llywelyn,

Lleolwyd un o lysoedd Llywelyn ger pentref Beddgelert heddiw. Yma yn yr haf, byddai Llywelyn a'i wraig a'u Teulu gorffwys am ychydig ddyddiau ar eu ffordd o lys i lys i fwynhau'r hela da yn y dyffryn coediog. Ar un achlysur o'r fath, cafodd y frenhines ei galw i ymweld ag offeiriad lleol, ar yr union ddiwrnod yr oedd Llywelyn a'i ddynion wedi cynllunio i fynd hela. Ac felly, yn anfodlon, gadawodd Llywelyn Gelert, yr hen gi ffyddlon gyda nyrs y baban i wylio dros y tywysog bychan, ac yna carlamodd i ffwrdd.

Trodd y bore poeth yn brynhawn hyfryd, euraidd. Pendwmpiodd y mewn cadair dan gysgod coeden afal wrth iddi siglo'r tywysog yn ei grud. Cafodd ei deffro o'i chwsig gan y cogydd yn galw am ei chymorth gyda rhyw neges neu'i gilydd. Yn meddwl dim mohono, gadawodd Gelert i warchod y tywysog. Doedd ganddi'r un syniad bod blaidd llwglyd wedi bod yn gwyllo gerllaw, ac o weld ei gyfle, yn sleifio tuag at y coed a chrud y baban.

Ychydig yn ddiweddarach, dychwelodd Llywelyn a'i ddynion a phentwr o ysgyfarnogod yn barod ar gyfer swper. Daeth Gelert, ai gynffon yn ysgwyd i gyfarch ei feistr yn serchus, ond roedd genau'r hen gi yn waedlyd. Dychrynodd Llywelyn, rhuthrodd i'r feithrinfa i chwilio am ei fab, a'i gael yn wag. Gwelodd bod y drws ar agor i'r berllan tu hwnt, a rhedodd allan i weld crud y tywysog bach yn wyneb i waered a gerllaw, blanced waedlyd. Yn ei alar dall, tynnodd Llywelyn ei gleddyf a'i daro i ystlys Gelert. Wrth i'r ci annwyl farw, gollyngodd un waedd boenus a dyma'r sŵn crio'r tywysog bach yn dod o dan y crud. Death Llywelyn o hyd i'r plentyn yn ddiogel ac yn ddianaf, ac wedi ei guddio gerllaw, yng nghysgod y goeden afal, corff marw blaidd tenau, llwglyd.

Yn llawn galar, cydiodd Llywelyn gorff difywyd Gelert ato. Addawodd anrhydeddu'r ci dewr a oedd wedi amdiffyn y tywysog bach wrth y blaidd. Cadwodd Llywelyn ei air, ac adeiladodd fedd arbennig. Caiff ei ymweld gan filoedd hyd heddiw, ac mae'r stori a'r bedd wedi rhoi enw i'r pentref cyfagos, Beddgelert.

## RHYS A MEINIR YN NANT GWRTHEYRN

Unwaith ym Mhlwyf Clynnog Fawr, roedd dau gariad ifanc, Rhys a Meinir. Roeddent yn arfer cyfarfod a'i gilydd dan gysgod hen goeden dderwen gwag-foliog ger Nant Gwrtheyrn, a mwynhau'r golygfeydd ysblennydd o'r môr. Ar ôl sawl mis o garwriaeth, penderfynodd y ddau briodi a phenodwyd dyddiad yn ganol haf ar gyfer eu priodas.

Gwawriodd y diwrnod yn heulog, ac fel yr oedd yn draddodiad ar y pryd, aeth Meinir i guddio rhag y ffrindiau ei darpar ŵr a fyddai'n dod i chwilio amdani a'i dwyn i'r eglwys.

Daeth yr amser a benodwyd ar gyfer y seremoni. Arhosodd Rhys wrth yr allor, ond doedd dim golwg o Meinir. Trodd eiliadau yn funudau hir ond dal, ni allai'r llanciau ddod o hyd i'r briodasferch. Trodd pryder yn banig ac ymunodd Rhys a'r gwestai priodas yn yr ymgyrch i ffeindio Meinir. A'r haul yn machlud ar ddiwedd y diwrnod hir, doedd dal ddim golwg o'r briodasferch.

Dros y dyddiau nesaf, bu'r plwyf cyfan yn chwilio bob twll a chornel o'r ardal amdani, ond ni chawsant fyth mohoni. Yn ei alar, parhaodd Rhys i chwilio ddydd a nos am ei gariad, yng nghwmni ei gi ffyddlon, Cidwm.

Un noson oer, yn agosáu at ganol gaeaf, dyma chwilio Rhys yn ei gymryd lawr rhiw serth tuag at Nant Gwrtheyrn. Roedd y gwynt yn codi a storm yn chwythu o'r môr. Cymerodd Rhys gysgod dan gangau'r hen dderwen, gan gofio'r holl amser dymunol oedd wedi rhannu gyda Meinir yno. Yn sydyn, dyma fflach o oleuni yn taro'r hen goeden a'i hollti yn ddwy. Syrthiodd hanner bonyn y goeden wrth ochr Rhys gan ddatgelu beth oedd wedi ei guddio y tu fewn: sgerbwd wedi ei wisgo mewn ffrog briodas garpiog a dafnau o wallt golau yn dal i lynu wrth y penglog. Torrodd calon Rhys yn ei union, syrthiodd i'r llawr a marw. Gorweddodd Cidwm y ci ffyddlon wrth gorff ei feistr ei feistr a dyna le y ffeindwyd nhw ddyddiau wedyn gan drigolion yr ardal.

## OWAIN GLYNDŴR AC ABAD GLYN Y GROES

Does dim enw sy'n consurio delweddau o wrthryfel Cymreig yn well nag Owain Glyndŵr. "I am not in the roll of common men," meddai Owain yn Henry IV, Rhan I Shakespeare . Yn llawer mwy na chwyldroadwr, ganwyd Owain i deulu bonheddig Cymreig ym 1354, un oedd yn olrhain eu llinach o frenhinoedd Powys a Deheubarth yn ne-orllewin Cymru . Etifeddodd Owain y teitl Barwn Glyndyfrdwy, a maenor Glyndyfrdwy trwy ei dad. Yma ar 16 Medi 1400, cyhoeddodd ei hun yn Dywysog Cymru, gan ddechrau gwrthryfel hir – pedair blynedd ar ddeg yn erbyn brenhiniaeth Lloegr.

Fel y Brenin Arthur, mae yna draddodiad bod Owain Glyndŵr dal yn fyw, yn cysgu ac yn aros am amser pan fydd ei angen eto i arwain Cymru i ryddid. Mae 'na Stori a gofnodwyd gan y croniclydd Elis Gruffydd, sy'n sôn am Abad Abaty Glyn y Groes yn cyfarfod Owain yn gynnar un bore wrth gerdded ei ben ei hun ar y bryniau ger Llangollen.

"Rydych wedi codi yn gynnar, Meistr Abad," meddai'r Tywysog, ac atebodd yr Abad,

"Na, fy Arglwydd, chi sydd wedi codi'n gynnar - o leiaf gan mlynedd yn rhy gynnar!" Gyda hynny, gwelodd Owain yn cerdded i ffwrdd ac yn diflannu i niwl y bore.